

PAS 402:2009

Rheoli Adnoddau Gwastraff – Manyleb Adrodd am Berfformiad



Gwybodaeth am gyhoeddi a hawlfraint

Mae'r hysbysiad hawlfraint BSI a arddangosir yn y ddogfen hon yn dangos pryd cyflwynwyd y ddogfen ddiwethaf.

© BSI Mawrth 2011

ISBN 978 0 580 74243 9

ICS 13.030.01, 03.100.01

Dim copïo heb ganiatâd BSI ac eithrio fel y caniateir gan gyfraith hawlfraint.

Hanes cyhoeddi

Cyhoeddwyd gyntaf ym mis Mawrth 2011

Newidiadau a gyflwynwyd ers cyhoeddi

Dyddiad	Testun yr effeithiwyd arno

Cynnwys

Rhagair	ii
Cyflwyniad	v
1 Cwmpas	1
2 Termau a diffiniadau	1
3 Cyffredinol	5
4 Cwmpas y gweithrediadau	5
5 Perthynas â chleientiaid	6
6 Effeithiau a risgiau	6
7 Rheolaeth weithredol	7
8 Rheoli adnoddau trefniadol	7
9 Cymhwysedd	8
10 Gofynion cyfreithiol ac eraill	8
11 Camau cywiro, atal a gwella	9
12 Adolygu perfformiad	9
Atodiadau	10
Atodiad A (er gwybodaeth) Cyfatebiaeth â systemau rheoli presennol	10
Atodiad B (er gwybodaeth) Gweithgareddau prosesu gwastraff	15
Atodiad C (normadol) Dull o bennu cyfraddau dargyfeirio o dirlenwi ac adennill deunyddiau	17
Llyfryddiaeth	29



Rhagair

Noddwyd y Fanyleb hon, sydd ar gael i'r Cyhoedd (PAS) gan Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru (CEW), a hwyluswyd ei datblygiad gan BSI. Daeth i rym ar 13 Gorffennaf 2009.

Rhoddir cydnabyddiaeth i Paul Jennings ac Emma Cottrell, awduron y PAS, a reolodd ei datblygiad ar gyfer CEW. Rhoddir cydnabyddiaeth hefyd i'r cynrychiolwyr canlynol a fu'n rhan o'i datblygiad:

- Karin Black, Llywodraeth Cynulliad Cymru
- Huw Davies, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
- Nick Tune, BRE Cymru
- Mike Cullis, Prifysgol Fetropolitan Abertawe
- Celine Anouilh, Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff
- David Humphreys, Seren Management Systems
- Tony Crotty, Green Triangle Management Systems
- Glenn Shide, Green Triangle Management Systems
- Amber Hampshire, Amber Services
- Neil Hassall, Alan's Skip Hire Ltd
- Stuart Hanford, Atlantic Waste Management Ltd
- Shaun O'Kelly, Brisco Waste Disposal Ltd
- Alun Price, Bryn Quarry Ltd
- Debbie Robinson, Mark Davies, Terry Griffiths, Derwen Aggregates
- Elwyn Jones, Iwan Jones, Peter Shankland, Parle's Skip Hire Limited
- David Williams, Potters Recycling
- Tim Harper, Thornccliffe Building Supplies Ltd
- Ifor Davies, Meurig Jones, Williams a Williams Cyf

Carai CEW hefyd gydnabod cyfraniad amhrisiadwy y sefydliadau hynny a roddodd o'u hamser i adolygu drafftiau gwaith PAS 402 ac a gyflwynodd sylwadau i'w hystyried. Helpodd y cyfraniadau i wella'r fanyleb, ac fe'u gwerthfawrogyd yn fawr.

CEW yw'r corff ymbarél ar gyfer y diwydiant adeiladu yng Nghymru, sy'n golygu mai CEW yw'r sefydliad busnes ar gyfer unrhyw un sy'n ymwneud â'r amgylchedd adeiledig yng Nghymru. Wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, cylch gorchwyl CEW yw gwella'r broses adeiladu yng Nghymru a sicrhau bod

egwyddorion ailystyried adeiladu, fel y'u hamlinellwyd yn Adroddiad Egan 1998, *Rethinking Construction* ac Adroddiad Latham 1994, *Constructing the Team* yn dod yn arfer prif ffrwd yn y diwydiant.

Mae BSI yn cadw perchnogaeth a hawlfraint ar y PAS. Mae BSI yn cadw'r hawl i dynnu'n ôl neu newid y PAS os bydd yn derbyn cyngor awdurdodol bod gwneud hynny'n briodol. Bydd y PAS yn cael ei hadolygu bob dwy flynedd o leiaf, a bydd unrhyw newidiadau yn sgîl yr adolygiad yn cael eu cyhoeddi ar ffurf PAS diwygiedig, ac yn cael cyhoeddusrwydd yn *Update Standards*.

Nid yw'r PAS i gael ei ystyried fel Safon Brydeinig. Bydd yn cael ei thynnu'n ôl adeg cyhoeddi'r cynnwys mewn neu ar ffurf Safon Brydeinig.

Mae'r broses PAS yn caniatáu datblygu manyleb yn gyflym er mwyn ymateb ar unwaith i angen yn y diwydiant. Gellir ystyried datblygu PAS ymhellach i greu Safon Brydeinig, neu gall fod yn rhan o fewnbwn y Deyrnas Unedig wrth ddatblygu Safon Ewropeaidd neu Ryngwladol.



Perthynas â chyhoeddiadau eraill

Lluniwyd y PAS hefyd i ganiatáu i sefydliadau rheoli adnoddau gwastraff ddefnyddio'u cydymffurfiaeth â chyhoeddiadau cysylltiedig i arddangos perfformiad. Cyhoeddiad cysylltiedig yw un sy'n ymdrin ag un neu fwy o ofynion y fanyleb hon.

Ceir tablau cyfatebiaeth manwl rhwng PAS 402 a safonau systemau rheoli presennol ar gyfer yr amgylchedd (BS EN ISO 14001), ansawdd (BS EN ISO 9001), iechyd a diogelwch (BS OHSAS 18001) ac ar gyfer nodi gofynion systemau rheoli cyffredin fel fframwaith ar gyfer integreiddio (PAS 99) yn Atodiad A.

Ceir canllawiau manwl ar sut mae cwblhau adroddiad rheoli adnoddau gwastraff sy'n cydymffurfio â PAS 402 mewn dogfen ategol a gyhoeddwyd gan CEW, *Rheoli Adnoddau Gwastraff – Canllawiau Adrodd am Berfformiad yn erbyn PAS 402*.

Archwilio. Cynghorir defnyddwyr PAS 402 i ystyried dymunoldeb archwiliad trydydd parti o'u cydymffurfiaeth â'r PAS. Disgrifir trefniadau ardystio cydymffurfiaeth priodol yn BS EN ISO/IEC 17020:2004. Gall defnyddwyr sy'n chwilio am gymorth i gael hyd i gyrff neu gynlluniau priodol ar gyfer asesu cydymffurfiaeth ofyn i BSI anfon eu hymholiadau ymlaen at y corff perthnasol.

Defnyddio'r ddogfen hon

Rhagdybiwyd wrth baratoi'r PAS y bydd cyflawni ei ddarpariaethau yn cael ei ymddiried i rai sydd â chymwysterau a phrofiad priodol, y'i cynhyrchwyd at eu defnydd.

Mae BSI wedi cymryd pob cam rhesymol i sicrhau cywirdeb y cyfieithiad hwn, ond mae'n flin ganddynt na ellir derbyn cyfrifoldeb am unrhyw wall, esgeulustra neu anghywirdeb. Os cyfyd amheuaeth neu anghydfod, dim ond testun yr iaith wreiddiol sy'n ddilys.

Confensiynau cyflwyno


Cyflwynir darpariaethau'r safon hon mewn teip rhufeinig (h.y. ar i fyny). Mynegir ei gofynion mewn brawddegau lle defnyddir y brif ferf ategol "rhaid".

Cyflwynir sylwadau, esboniadau, a deunydd cyffredinol er gwybodaeth mewn teip italig llai o faint, ac nid yw'r rheiny'n elfennau normadol. Defnyddir y gair "dylai" i fynegi argymhellion, "gellid" i gyfleu rhywbeth y gellid ei ganiatáu a "gellir" i fynegi posibilrwydd, e.e. canlyniad i weithred neu ddigwyddiad.

Ystyriaethau contractiol a chyfreithiol

Nid yw'r cyhoeddiad hwn yn honni cynnwys holl ddarpariaethau angenrheidiol contract. Y defnyddwyr sy'n gyfrifol am ei gymhwyso'n gywir.

Ni all cydymffurfio â PAS sicrhau imiwnedd o rwymedigaethau chyfreithiol.





Datganiad y Gweinidog

Mae cyhoeddi'r fanyleb hon yn garreg filltir o bwys ar y ffordd tuag at wireddu ein hamcanion ar gyfer dyfodol cynaliadwy. Gall PAS 402 sbarduno gwelliannau o fewn y diwydiant rheoli gwastraff, gan esgor ar y newid sylweddol y mae arnom ei angen er mwyn dileu gwastraff yn llwyr.

Mae datblygiad y fanyleb yn enghraifft wych o sut y gall diwydiant a llywodraeth gydweithio mewn partneriaeth wirioneddol i droi syniadau'n weithredu sydd o fudd inni oll. Bydd defnyddio'r fanyleb yn meithrin hyder y cwsmer, yn gwella effeithlonrwydd busnes ac yn darparu gwybodaeth a ddilyswyd ar gyfer cleientiaid a'r llywodraeth.

Nid yw tirlenwi yn opsiwn bellach. Yn 2006, cynhyrchodd y DU 307 000 000 tonnall fetrig o wastraff. Bydd angen i ddiwydiant a'r llywodraeth gydweithio i sicrhau adennill ac aildefnyddio'r adnodd gwerthfawr hwnnw yr ystyrir, ar un adeg, ei fod yn wastraff. Rydym yn defnyddio llawer mwy na'n cyfran ni o adnoddau'r byd, gydag angen bron tair planed ar bob un ohonom yn y Deyrnas Unedig er mwyn cynnal ein ffordd bresennol o fyw. Rhaid lleihau ein hól troed ecolegol, a chan mai gwastraff sy'n cyfrif am bron un rhan o chwech o'r ôl troed hwn, mae'n amlwg yn flaenoriaeth.

Mae noddi'r fanyleb hon yn adlewyrchu cydnabod y flaenoriaeth hon gan y llywodraeth, ac yn atgyfnerthu ein hewyllys i lwyddo i sicrhau dyfodol cynaliadwy.

Mae'n dda calon gennyf gael y cyfle hwn i nodi cyhoeddi'r fanyleb genedlaethol hon. Diolchaf i'r tîm Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru, ac i'r cyrff rheoli gwastraff arloesol. Heb eu cefnogaeth hwy, ni ellid bod wedi datblygu'r fanyleb hon.

Jane Davidson AC

Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai Llywodraeth Cynulliad Cymru

Cyflwyniad

Mae'r diwydiant gwastraff yn newid. Nid yw bellach yn canolbwyntio ar lenwi tyllau yn y ddaear. Mae'r diwydiant wedi cydnabod y cyfleoedd posib yn sgîl adennill yr adnoddau a geir mewn gwastraff. Yn wir, mae gwastraff yn dechrau cael ei ystyried yn adnodd ynddo'i hun.

Nod PAS 402 yw darparu manyleb ar gyfer adrodd am berfformiad y gall cyrff rheoli adnoddau gwastraff ei mabwysiadu. Mae'r fanyleb yn darparu fframwaith ar gyfer arddangos perfformiad yn erbyn meysydd cyflawni allweddol, yn cynnwys dargyfeirio o dirlenwi ac adennill deunyddiau, gan roi sicrwydd i gwsmeriaid presennol a darpar gwsmeriaid ynghylch y gwasanaeth maent yn ei gaffael.

Mae'r sector adeiladu, dymchwel a chloddio yn cynhyrchu mwy o wastraff nag unrhyw sector arall, ond mae'n anodd diffinio'r gwastraff hwn oherwydd bod llawer o'r cydrannau i'w canfod mewn gwastraff a gynhyrchir gan sectorau eraill. Felly, mewn ymgynghoriad â'r diwydiant gwastraff, penderfynwyd datblygu PAS 402 ar gyfer pob math o wastraff, sut bynnag mae'n cael ei gynhyrchu.



1 Cwmpas

Mae'r PAS yn pennu'r gofynion i gyrff rheoli adnoddau gwastraff o ran adrodd am berfformiad.

Mae'n gofyn bod corff rheoli adnoddau gwastraff yn adrodd am:

- a) sut mae'n cyflawni gweithgareddau rheoli adnoddau gwastraff penodol (Cymalau 3 i 11); a'r
- b) cyfraddau dargyfeirio o dirlenwi ac adennill deunyddiau mae'n eu cyflawni (Cymal 12).

Mae'n berthnasol i gorff rheoli adnoddau gwastraff sy'n prosesu gwastraff diwydiannol, masnachol neu o gartrefi mewn gorsaf drosgrwyddo, cyfleuster trin neu safle gwaredu.

Nid yw'n berthnasol i gorff rheoli adnoddau gwastraff sy'n gweithredu fel cludydd gwastraff neu frocer gwastraff yn unig.

NODYN 1 Ceir canllawiau manwl ar sut mae cwblhau adroddiad ar reoli adnoddau gwastraff sy'n cydymffurfio â PAS 402 mewn dogfen ategol a gyhoeddwyd gan CEW, sef Rheoli Adnoddau Gwastraff – Canllawiau ar gyfer Adrodd am Berfformiad yn erbyn PAS 402 [1].

NODYN 2 Ceir tablau cyfatebiaeth sy'n dangos y berthynas rhwng Cymalau 3 i 12 a safonau systemau rheoli presennol yn Atodiad A.

NODYN 3 Mae'n ofynnol i gyrff rheoli adnoddau gwastraff, yn ôl deddfwriaeth yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban, gael eu hawdurdodi i gyflawni eu gweithgareddau.



2 Termau a diffiniadau

At ddibenion y PAS, mae'r termau a'r diffiniadau canlynol yn gymwys.

2.1 cynllun busnes wrth gefn (BCP)

casgliad o ddogfennau gweithdrefn a gwybodaeth sydd yn cael ei ddatblygu, ei grynhoi a'i gynnal yn barod i'w ddefnyddio mewn unrhyw ddigwyddiad lle bo angen galluogi corff i barhau i gyflawni ei weithgareddau hanfodol ar lefel dderbyniol a ddiffiniwyd ymlaen llaw [BS 25999-1:2006, 2.6]

2.2 cleient

corff sy'n cynhyrchu gwastraff

2.3 casglu

crynhoi gwastraff, gan gynnwys didoli cychwynnol a storio cychwynnol gwastraff, at ddibenion ei gludo i gyfleuster trin gwastraff

[Cyfarwydddeb Cymunedau Ewrop 2008/98/EC ar wastraff [2], Erthygl 3(10)]

2.4 gwastraff masnachol

gwastraff o unrhyw safle a ddefnyddir yn llwyr neu'n bennaf ar gyfer masnach, busnes, chwaraeon neu adloniant (heb gynnwys gwastraff diwydiannol ac o gartrefi)

[Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 [3], talfyriad o Adran 75(7)]

NODYN Ceir disgrifiad manwl o'r mathau o wastraff a ddosbarthir fel gwastraff masnachol yn Rheoliadau Gwastraff Rheoledig 1992 [4] a Rheoliadau Gwastraff Rheoledig (Gogledd Iwerddon) 2002 [5].

2.5 gwastraff rheoledig

gwastraff masnachol, diwydiannol ac o gartrefi

[Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 [3] Adran 75(4)]

NODYN Ceir disgrifiad manwl o'r mathau o wastraff a ddosbarthir fel gwastraff masnachol, diwydiannol ac o gartrefi yn Rheoliadau Gwastraff Rheoledig 1992 [4] a Rheoliadau Gwastraff Rheoledig (Gogledd Iwerddon) 2002 [5].

2.6 gwaredu

gweithrediad nad yw'n adfer hyd yn oed pan fo'r gweithrediad, fel canlyniad eilaidd, yn adennill sylweddau neu ynni

[Cyfarwydddeb Cymunedau Ewrop 2008/98/EC ar wastraff [2], Erthygl 3(19)]

NODYN *Ceir rhestr o'r gweithrediadau gwastraff a allai arwain at waredu yng Nghyfarwydddeb Cymunedau Ewrop 2008/98/EC [2], Atodiad I.*

2.7 safle gwaredu

safle lle gwaredir gwastraff

NODYN *Er enghraifft, safle tirlenwi.*

2.8 dyletswydd gofal

dyletswydd unrhyw un sy'n cynhyrchu, yn mewnfario, yn cludo, yn cadw, yn trin neu'n gwaredu gwastraff rheoledig, neu sy'n rheoli gwastraff o'r fath fel brocer, i sicrhau bod y gwastraff yn cael ei reoli'n iawn, ei adennill neu ei waredu'n ddiogel, nad yw'n achosi niwed i iechyd dynol na llygredd i'r amgylchedd, ac nad yw'n cael ei drosglwyddo ond i rywun sydd wedi'i awdurdodi i'w dderbyn

[Defra, www.defra.gov.uk/environment/waste/legislation/duty.htm]

NODYN *Cyfeirir at ddyletswydd gofal yn Neddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 [3], Adran 34.*

2.9 adennill ynni

gweithgaredd i ddefnyddio gwastraff llosgadwy yn fodd i gynhyrchu ynni trwy hylosgi uniongyrchol gan adennill gwres

[BS EN 13965-2:2004, 3.21]

2.10 amgylchedd

amgylchiadau y mae corff yn gweithredu o'u mewn, yn cynnwys aer, dŵr, tir, adnoddau naturiol, planhigion, anifeiliaid, pobl a'r berthynas rhyngddynt

[BS EN ISO 14001:2004, 3.5]

NODYN *Mae amgylchiadau yn y cyd-destun hwn yn estyn o'r tu mewn i sefydliad i'r system fyd-eang.*

2.11 gwastraff peryglus

gwastraff sy'n arddangos un neu fwy o nodweddion peryglus

[Cyfarwydddeb Cymunedau Ewrop 2008/98/EC ar wastraff [2], Erthygl 3(2)]

NODYN *Ceir rhestr o nodweddion peryglus yng Nghyfarwydddeb Cymunedau Ewrop 2008/98/EC ar wastraff [2], Atodiad III.*

2.12 gwastraff o gartrefi

gwastraff o eiddo domestig, carafan, cartref preswyl, safle sy'n rhan o brifysgol neu ysgol neu sefydliad addysg arall a safle sy'n rhan o ysbyty neu gartref nyrsio

[Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 [3], talfyriad o Adran 75(5)]

NODYN *Ceir disgrifiad manwl o'r mathau o wastraff a ddosbarthir fel gwastraff o gartrefi yn Rheoliadau Gwastraff Rheoledig 1992 [4] a Rheoliadau Gwastraff Rheoledig (Gogledd Iwerddon) 2002 [5].*

2.13 digwyddiad

sefyllfa a allai achosi, neu arwain at amharu ar fusnes, colled, sefyllfa frys neu argyfwng

[BS 25999-1:2006, 2.6]

2.14 gwastraff diwydiannol

gwastraff o unrhyw ffatri ac o unrhyw safle a ddefnyddir at ddibenion, neu mewn cysylltiad â, darparu gwasanaethau trafndiaeth, cyflenwi nwy, dŵr neu drydan, gwasanaethau carthffosiaeth neu wasanaethau post neu delegyfathrebu

[Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 [3], talfyriad o Adran 75(6)]

NODYN *Ceir disgrifiad manwl o'r mathau o wastraff sy'n cael eu dosbarthu fel gwastraff diwydiannol yn Rheoliadau Gwastraff Rheoledig 1992 [4] a Rheoliadau Gwastraff Rheoledig (Gogledd Iwerddon) 2002 [5].*

2.15 safle tirlenwi

safle gwaredu gwastraff lle gadewir gwastraff ar dir neu ynddo

[Cyfarwydddeb Cyngor Cymunedau Ewrop 1999/31/EC ar dirlenwi gwastraff [6], talfyriad o Erthygl 2(g)]

2.16 cyfradd dargyfeirio o safleoedd tirlenwi

màs y gwastraff a ddargyfeiriwyd o safleoedd tirlenwi fel cyfran o holl fàs y gwastraff a dderbyniwyd

2.17 màs

mesuriad meintiol o wrthiant gwrthrych i gael ei gyflymu

NODYN Mewn iaith bob dydd, ceir dryswch yn gyson rhwng màs a phwysau. Fodd bynnag, pwysau yw cryfder tyniant disgrychiant ar wrthrych, ac felly mae'n rym a fesurir mewn newtonau. Mae'r gwahaniaeth rhwng màs a phwysau, felly, yn cyd-fynd â'r rheolau a nodwyd gan y System Unedau Ryngwladol (SI) a'u pennu yn BS ISO 80000.

2.18 cyfradd adennill deunyddiau

màs y gwastraff a adenillwyd fesul math o ddeunydd, fel cyfran o holl fàs yr un deunydd a dderbyniwyd ar ffurf gwastraff

2.19 uchafswm gallu i weithredu

y màs mwyaf o wastraff y gellir ei brosesu gan gorff rheoli adnoddau gwastraff dros gyfnod penodol o amser

NODYN Gellir nodi gwerthoedd mewn unedau megis cilogramau y dydd, tunelli y flwyddyn a litrau yr wythnos.



2.20 corff

cwmni, corfforaeth, ffyrm, menter, awdurdod neu sefydliad, neu ran neu gyfuniad o'r pethau hynny, boed wedi'i ymgorffori neu beidio, yn gyhoeddus neu'n breifat, sydd â'i swyddogaethau a'i weinyddiaeth ei hun

[BS EN ISO 14001:2004, 3.16]

NODYN Yn achos cyrff sydd â mwy nag un uned weithredol, gellir diffinio uned weithredol sengl fel corff.

2.21 rheoli adnoddau'r corff

y dull o reoli adnoddau a ddefnyddir gan gorff i ddarparu ei wasanaethau i gleientiaid

2.22 adennill

gweithrediad sydd â'r canlyniad pennaf o ddefnyddio gwastraff at ddiben defnyddiol trwy ddisodli deunyddiau eraill a fyddai fel arall wedi cael eu defnyddio i gyflawni swyddogaeth benodol, neu wastraff sy'n cael ei baratoi i gyflawni'r swyddogaeth honno, yn y gweithfeydd, neu yn yr economi ehangach

[Cyfarwyddeb Cymunedau Ewrop 2008/98/EC ar wastraff [2], Erthygl 3(15)]

NODYN Mae adennill yn cynnwys, er enghraifft, aildefnyddio, ailgylchu ac adennill ynni. Ceir rhestr o'r gweithrediadau gwastraff a all arwain at adennill yng Nghyfarwyddeb Cymunedau Ewrop 2008/98/EC ar wastraff [2], Atodiad II.

2.23 ailgylchu

gweithred adennill sy'n golygu bod deunyddiau gwastraff yn cael eu hailbroseu'n gynnyrch, deunyddiau neu sylweddau, boed hynny at y diben gwreiddiol neu ddibenion eraill, heb eithrio adennill ynni a'r ailbroseu i greu deunyddiau sydd i'w defnyddio fel tanwydd neu ar gyfer gwaith ôl-lenwi

[Cyfarwyddeb Cymunedau Ewrop 2008/98/EC ar wastraff [2], Erthygl 3(17)]

2.24 aildefnyddio

gweithred o adennill lle caiff cynnyrch neu gydrannau nad ydynt yn wastraff eu defnyddio eto ar gyfer eu diben gwreiddiol

[Cyfarwyddeb Cymunedau Ewrop 2008/98/EC ar wastraff [2], Erthygl 3(13)]

2.25 arfarniad technegol

dadansoddiad gwyddonol i bennu cyfansoddiad gwastraff

2.26 uwch reolwyr

person neu grŵp o bobl sy'n cyfarwyddo ac yn rheoli corff ar y lefel uchaf

[BS EN ISO 9000:2005, 3.2.7]

2.27 trosglwyddo

y broses o symud gwastraff o un lleoliad i un arall

2.28 gorsaf drosglwyddo

safle lle trosglwyddir gwastraff o un dull cludiant i un arall

[BS EN 13965-2:2004, 3.51]

NODYN *Yn bennaf, trosglwyddir y gwastraff o unedau cludiant llai i rai mwy.*

2.29 triniaeth

gweithrediadau adennill neu waredu, yn cynnwys paratoi cyn adennill neu waredu

[Cyfarwydddeb Cymunedau Ewrop 2008/98/EC ar wastraff [2], Erthygl 3(14)]

2.30 cyfleuster triniaeth

cyfleuster lle caiff gwastraff ei drin er mwyn ei adennill neu ei waredu

2.31 archwiliad gweledol

mesur cyfansoddiad ac ansawdd deunydd neu gynnyrch trwy edrych arno

2.32 gwastraff

sylwedd neu wrthrych y mae'r deilydd yn ei waredu, yn bwriadu ei waredu, neu y mae'n ofynnol iddo ei waredu

[Cyfarwydddeb Cymunedau Ewrop 2008/98/EC ar wastraff [2], Erthygl 3(1)]

2.33 brocer gwastraff

corff sy'n trefnu, ar ran eraill, i gludo, gwaredu neu adennill gwastraff rheoledig, ond nad yw'n ei ddal na'i drafod ei hun

NODYN *Er enghraifft, gallant drefnu bod cyrff eraill yn ei adennill neu'n ei waredu.*

2.34 cludydd gwastraff

corff sy'n cludo gwastraff rheoledig i unrhyw fan neu oddi yno fel rhan o unrhyw fusnes neu fel arall gyda'r bwriad o greu elw

2.35 hierarchaeth wastraff

trefn blaenoriaeth strategaethau atal a rheoli gwastraff

NODYN *Ceir yr hierarchaeth wastraff yng Nghyfarwydddeb Cymunedau Ewrop 2008/98/EC ar wastraff [2], Erthygl 4 fel a ganlyn:*

- a) atal;
- b) paratoi ar gyfer aildddefnyddio;
- c) ailgylchu;
- ch) dulliau adennill eraill (e.e. adennill ynni); a
- d) gwaredu.

2.36 gweithrediadau gwastraff

gweithgareddau a gyflawnir wrth gasglu, cludo, adennill, trin a gwaredu gwastraff

2.37 rheoli adnoddau gwastraff

casglu, cludo, adennill, trin a gwaredu gwastraff, yn cynnwys goruchwyllo gweithrediadau o'r fath ac ôl-ofal safleoedd gwaredu

[Cyfarwydddeb Cymunedau Ewrop 2008/98/EC ar wastraff [2], diffiniad o reoli gwastraff yn Erthygl 3(9)]

2.38 corff rheoli adnoddau gwastraff

corff sy'n cyflawni gweithrediadau gwastraff



3 Cyffredinol

3.1 Rhaid i'r corff gynhyrchu adroddiad blynyddol sydd ar gael i'r cyhoedd, ac sy'n cynnwys yr wybodaeth a nodir yng Nghymalau 4 i 12.

3.2 Rhaid i'r adroddiad gael ei gymeradwyo gan yr uwch reolwyr.

NODYN 1 Dylai'r adroddiad gyflwyno disgrifiad cyflawn a gwir, addas at natur a graddfa'r corff. Dylid ei ysgrifennu'n unol ag egwyddorion tryloywder, cyflawnder, perthnasedd, cywirdeb, cymaradwyedd, eglurdeb, amseroldeb ac archwiliadwyedd.

NODYN 2 Ni phennir dull o gyflwyno'r adroddiad. Gellir defnyddio diagramau llif, siartiau neu ddarluniadau wrth ddisgrifio gweithrediadau a phrosesau corff.

NODYN 3 Ceir arweiniad manwl ynghylch sut mae cwblhau adroddiad rheoli adnoddau gwastraff sy'n cydymffurfio â PAS 402 mewn dogfen ategol a gyhoeddwyd gan CEW, sef Rheoli Adnoddau Gwastraff – Canllawiau ar gyfer Adrodd am Berfformiad yn erbyn PAS 402 [1].



4 Cwmpas y gweithrediadau

Rhaid i'r adroddiad ddiffinio cwmpas gweithrediadau gwastraff y corff sydd i'w trafod yn yr adroddiad, yn cynnwys:

- a) pob rhif rhaglen hawlenni amgylcheddol a/neu rif trwydded rheoli gwastraff;
- b) enw neu enwau'r corff fel y'u ceir ar ei hawlenni amgylcheddol neu ei drwyddedau rheoli gwastraff;
- c) unrhyw weithrediadau gwastraff a mathau gwastraff a ganiateir;
- ch) unrhyw weithgareddau gwastraff a mathau gwastraff eithriedig;
- d) unrhyw weithgareddau gwastraff a mathau gwastraff neilltuedig;
- dd) disgrifiad o bob man y cyflawnir ynddo'r gweithrediadau gwastraff a nodir yn c), ch) a d), gan gynnwys y manau hynny tan reolaeth uniongyrchol y corff a'r manau hynny sy'n eiddo i drydydd partion;
- e) maint gweithredu mwyaf pob un o'r gweithrediadau a nodwyd yn c), ch) a d);
- f) cyfiawnhad am unrhyw neilltuo rhag cwmpas yr adroddiad.

NODYN Gellir mynegi gwerthoedd mewn unedau megis cilogramau y diwrnod, tunelli y flwyddyn a litrau yr wythnos.

NODYN Cynhwysir adnabod y gweithrediadau gwastraff a ganiateir ac a eithrir yn achos corff rheoli adnoddau gwastraff gan Reoliadau Hawlenni Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2007 [7], Rheoliadau Trwyddedu Rheoli Gwastraff (Gogledd Iwerddon) 2003 [8] a Rheoliadau Trwyddedu Rheoli Gwastraff 1994 (fel y'u newidiwyd ar gyfer yr Alban) [9].

